4.1 Mae strategaethau rheoli'r drysorfa a benthyca'n arbennig yn dal i gael eu dylanwadu nid yn unig gan union faint y benthyciad ond hefyd y berthynas rhwng cyfraddau llog byrdymor a hirdymor. Mae rRhagolwg y cyfraddau llog sydd ar dudalen 33 yn dangos bod disgwyl i'r gwahaniaeth mawr rhwng cyfraddau llog tymor byr a hwy barhau. Mae'r gwahaniaeth hwn yn creu "costau cludo" ar unrhyw fenthyca tymor hwy newydd lle caiff y derbyniadau eu dal dros dro fel buddsoddiadau oherwydd y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n cael ei dalu ar y benthyciad a'r hyn sy'n cael ei ennill ar y buddsoddiad. Tra bo modd tybio mai mater byrdymor o fewn rheswm yw cost cludo oherwydd bod benthyca'n aml am gyfnodau hwy (unrhyw beth hyd at 50 mlynedd) nid oes modd ei anwybyddu o flaen cefnlen o ansicrwydd a chyfyngiadau fforddiadwyedd yn sefyllfa ariannol ehangach yr Awdurdod.

4.2 Fel y nodwyd yn Nhabl 1, mae gan yr Awdurdod ofyniad benthyca crynswth o £16.7m yn 2012/13 ond mae ganddo weddillion ac adnoddau digonol wrth gefn i osgoi benthyca allanol. Trwy roi benthyg ei arian dros ben ei hun iddo'i hun yn y bôn mae'r Awdurdod yn gallu lleihau costau benthyca a lleihau

peryglon i'r trysorlys at ei gilydd trwy leihau maint gweddillion ei fuddsoddi allanol.

4.3 Mae'n debygol y bydd cyfundrefn cymhorthdal tai, fydd yn cael ei diddymu yn Lloegr ar 1 Ebrill 2012, yn cael ei diddymu yng Nghymru hefyd, er na roddwyd amserlen ar gyfer hyn. Bydd diddymu'r cymhorthdal yn gofyn bod y Cyfrif Cyllid Tai (HRA) yn gwneud benthyciadau ychwanegol a bydd y dull statudol presennol o ddyrannu costau benthyca rhwng HRA a'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei ddisodli. Bydd adroddiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno pan fydd yr amserlen ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig a'u goblygiadau'n cael eu heglurhau.

5. Ffynonellau Benthyca a Goblygiadau Portffolio

5.1 Ar y cyd â chyngor ei ymgynghorydd trysorfa, Arlingclose Ltd, bydd y Cyngor yn adolygu'r dewisiadau benthyca canlynol:

- PWLB
- Awdurdodau lleol
- Banciau masnachol
- Banc Buddsoddi Ewrop
- Marchnadoedd arian
- Marchnadoedd cyfalaf (cyhoeddiadau stoc, papur a biliau masnachol)
- Cyllid strwythuredig
- Prydlesu

5.2 Mae costau cludo wedi arwain at ddibynnu mwy ar fenthyca cyfnod byrrach a chyfradd newidiol. Mae'r math hwn o fenthyca'n dod ag anwadalwch i'r portffolio dyledion o ran peryglon cyfraddau llog ond mae'n cael ei wrthbwyso gan ei fforddiadwyedd a thrwy ymochri costau benthyca gydag elw o fuddsoddi. Caiff amlygiad yr Awdurdod i fenthyca cyfnod byrrach a chyfradd newidiol ei adolygu'n rheolaidd trwy gyfeirio at y gwahaniaeth neu ymlediad rhwng costau benthyca cyfradd newidiol a thymor hwy. Bydd culhau 0.5% ar yr ymlediad yn peri adolygiad di-oed a ffurfiol o'r strategaeth fenthyca i benderfynu ar gadw neu newid yr amlygiad i gyfraddau byrrach a newidiol.

5.3 Mae'r Cyngor yn agored i £23.8m o fenthyciadau LOBO (Lender's Option Borrower's Option) gyda £14.3m ohonynt yn eu cyfnod "galw" yn ystod 2012/13. Caiff LOBO ei alw pan fydd y rhoddwr benthyg yn arfer ei hawl i newid y gyfradd log ar y benthyciad pryd y gall y cymrwr benthyg dderbyn y telerau newydd neu eu gwrthod ac ad-dalu'r benthyciad. Fe all fod peryglon ailgyllido i'r Awdurdod gyda benthyciadau LOBO oherwydd bod y penderfyniad i alw benthyciad LOBO yn hollol yn ôl dewis y rhoddwr benthyg.

Bydd unrhyw fenthyciad LOBO sy'n cael ei alw'n cael ei drafod gyda chynghorwyr y drysorfa cyn derbyn unrhyw delerau newydd. Y sefyllfa ddiofyn fydd ad-dalu'r benthyciad LOBO heb gosb, h.y. ni fydd y telerau newydd yn cael eu derbyn.

6. Ad-drefnu Dyledion

6.1 Mae modd ad-drefnu portffolio dyledion yr Awdurdod trwy ad-dalu benthyciadau cyn pryd a'u hailgyllido ar delerau tebyg neu wahanol i leihau peryglon a/neu arbed costau llog.

6.2 Mae'r amgylchedd cyfradd llogau is a newidiadau yn y rheolau ynghylch yr ad-dalu benthyciadau PWLB cyn pryd wedi effeithio er gwaeth ar y gallu i ad-drefnu dyledion yn ystyrlon er y daw cyfleoedd achlysurol. Y sail resymegol i ad-drefnu unrhyw ddyledion fyddai un neu fwy o'r canlynol:

- Arbed costau llog ar ôl addasu peryglon
- Ailfantoli strwythur cyfraddau llog y portffolio dyledion
- Newid proffil aeddfedu'r portffolio dyledion

6.3 Bydd gweithgaredd benthyca ac aildrefnu yn cael ei hysbysu yn Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Drysorfa a'r adroddiadau rheolaidd ar reoli'r drysorfa sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol.

7. Y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

7.1 Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru ac arferion gorau, mae sicrwydd cyfalaf yn aros fel prif amcan yr Awdurdod hwn mewn cysylltiad â buddsoddi arian cyhoeddus. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau'r Awdurdod ac yna'r elw ar fuddsoddiadau'n ystyriaethau pwysig ond eilradd.

7.2 Mae marchnadoedd credyd yn aros mewn cyflwr gofidus o ganlyniad i'r ddyled ormodol ac sy'n gwneud yn wael yn y marchnadoedd ariannol. Mewn rhai achosion, Gwlad Groeg a'r Eidal fel yr enghreifftiau mwyaf nodedig, arweiniodd maint a goblygiadau'r ddyled sydd wedi cronni at argyfwng dyledion sofran ac argyfwng bancio gyda'r canlyniad yn dal yn anhysbys i raddau helaeth. O flaen y gefnlen hon o ansicrwydd y lluniwyd strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod.

7.3 Caiff buddsoddiadau eu dosbarthu fel "Penodedig" neu "Amhenodedig" yng nghanllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Buddsoddiadau penodedig yw buddsoddiadau mewn sterling gyda chyfnod aeddfedu hwyaf o flwyddyn. Maent hefyd yn cyrraedd "ansawdd credyd uchel" fel y penderfynwyd gan yr Awdurdod ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel buddsoddiadau gwariant cyfalaf trwy statud. I bob diben, buddsoddiadau amhenodedig yw popeth arall.

7.4 Y canlynol yw'r mathau o fuddsoddiadau fydd yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod gan nodi a ydynt yn benodedig neu amhenodedig:

Tabl 2: Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig

Buddsoddiad	Penodedig	Amhenodedig
Adneuon cyfnod gyda banciau a chymdeithasau adeiladu	✓	✓
Adneuon cyfnod gydag awdurdodau lleol eraill yn y DU	✓	✓
Tystysgrifau adneuo gyda banciau a chymdeithasau adeiladu	✓	✓
Bondiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU	✓	✓
Biliau'r Trysorlys (Biliau T)	✓	✗
Bondiau a gyhoeddwyd gan Fanciau Datblygu Amlochrog	✓	✓
Biliau Awdurdodau Lleol	✓	✗
Papur Masnachol	✓	✗
Bondiau Corfforaethol	✓	✓
Cyllid y Farchnad Arian Gradd AAA	✓	✗
Cynlluniau Eraill y Farchnad Arian a Chydfuddsoddi	✓	✓
Cyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyledion	✓	✗

7.5 Bydd yr Awdurdod a'i gynghorwyr, Arlingclose Ltd, yn dewis gwledydd a sefydliadau ariannol ar ôl dadansoddi a chadw golwg o hyd ar y canlynol:

- Cyfraddiadau credyd cyhoeddedig ar gyfer sefydliadau ariannol
- Ffeirio Diffyg Credyd (pan gaiff ei ddyfynnu)
- Economeg sylfaenol (er enghraifft Dyled Glir fel canran o'r CMC)
- Trefnau cynnal sofraniaeth
- Prisiau cyfranddaliadau
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion ac erthyglau, teimlad a momentwm y farchnad
- Troshaen oddrychol – neu, o'i roi'n symlach, synnwyr cyffredin.

Mae modd gwahardd neu ddileu unrhyw sefydliad os bydd unrhyw un o'r ffactorau a nodwyd uchod yn peri pryder.

Mae'r gwledydd a sefydliadau sy'n cyrraedd y meini prawf ar gyfer adneuon tymor, Tystysgrifau Adneuo (CD) a chyfrifon galw i'w gweld ar dudalen 35.

Mae polisi'r awdurdod yn dal i wneud eithriadau i bolisi gwrthbarti a sefydlwyd o gwmpas cyfraddiadau credyd, ond mae hyn yn amodol a chyfeiriol. Mae hyn yn golygu bod modd gwahardd sefydliad sy'n cyrraedd meini prawf, ond ni fydd sefydliadau nad ydynt yn cyrraedd meini prawf yn cael eu hychwanegu.

7.6 Y prif newid yn y strategaeth fuddsoddi a argymhellwyd ar gyfer 2012/13 yw bod lleiafswm y statws credyd gwrthbarti hirdymor yn cael ei ostwng o A+ i A-

neu gyfartal o ran gwrthbartïon yn y DU. (Mae hyn yn cynrychioli newid o ddwy radd o fewn yr un israniad graddio, gradd ganolig uchaf sy'n nodi gallu cryf i gadw at ymrwymiadau ariannol).

Caiff y newid ei wneud mewn ymateb i amgylchiadau sy'n datblygu yn y marchnadoedd ariannol ac mae'n dilyn yr israddio statws credyd sefydliadau yn y DU yn hydref 2011 islaw A+ (Nationwide BS, Banc Lloyds TSB, Banc yr Alban, Banc Brenhinol yr Alban, Banc Natwest ccc a Barclays) a dosbarthu HSBC, Barclays, Grŵp Bancio Lloyds a Banc Brenhinol yr Alban ym mis Tachwedd fel "Sefydliadau Ariannol Pwysig Cyfundrefnol Byd-eang" (G-SIFI) gan y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol. Tra nad yw'r dosbarthiad hwn yn gwarantu na fydd y sefydliadau hyn yn cael methu, mae gofyn i sefydliadau G-SIFI gymryd camau ychwanegol i leihau perygl methiant.

Ystyrir bod graddfa o A- neu gyfartal fel lleiafswm, pwysigrwydd cyfundrefnol System Fancio'r DU a'r ffactorau eraill sy'n cael eu rhestru ym mharagraff 7.5 uchod, ynghyd â chyfyngiadau cyfnod aeddfedrwydd cysylltiedig â statws credyd, pan fo hynny'n cael ei ystyried yn briodol, yn agwedd bragmatig at beryglon gwrthbarti.

7.7 **Banc yr Awdurdod** – Mae'r Awdurdod yn bancio gyda Banc National Westminster ccc. Ar hyn o bryd, mae'n cyrraedd lleiafswm maen prawf credyd A- (neu gyfartal) hirdymor. Hyd yn oed os bydd y statws credyd yn disgyn islaw maen prawf gofynnol A- yr Awdurdod, bydd yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer gofynion hylifedd byrdymor (dros nos a buddsoddiadau phenwythnos) a threfniadau parhad busnes.

Mae cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd yn gofyn trosglwyddo busnes o Fanc National Westminster ccc i Santander UK ccc erbyn 31 Rhagfyr 2013 ond y disgwyl yw y bydd trosglwyddiad cyfreithiol yn gyflawn erbyn mis Ionawr 2013. O'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, banc y Cyngor fydd Santander UK ccc sydd hefyd yn cyrraedd lleiafswm maen prawf credyd y Cyngor.

Daw contract cyfleusterau bancio presennol y Cyngor i ben ar 31 Mawrth 2013 ac mae cyfarwyddeb yr UE yn atal National Westminster ccc rhag cynnig am y contract newydd fydd yn cael ei ddyfarnu o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

8. Strategaeth Fuddsoddi

8.1 Gyda chyfraddau llog byrdymor yn isel am fwy fyth o amser, strategaeth fuddsoddi, yn nodweddiadol, bydd yn peri ymestyn cyfnodau buddsoddi, pan fo llif arian yn caniatáu, er mwyn cloi cyfraddau uwch o elw addasedig i mewn gyda pherygl derbyniol. Y broblem yn yr amgylchedd sydd ohoni yw cael hyd i wrthbarti buddsoddi sy'n cynnig perygl gwrthbarti derbyniol.

8.2 Er mwyn amrywio portffolio buddsoddiadau a fuddsoddwyd yn bennaf mewn arian parod, bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gydag amrywiaeth o wrthbartïon buddsoddi cymeradwy er mwyn cael portffolio amrywiol o wrthbartïon darbodus, cyfnodau buddsoddi a chyfraddau adennill. Bydd buddsoddiad mwyaf yn cael eu pennu gyda phob gwrthbarti er mwyn sicrhau amrywio'n ddarbodus.

8.3 Bydd cyllid y farchnad arian (MMF) yn cael ei ddefnyddio ond mae arferion da rheoli'r drysorfa'n bodoli a, thra bo MMF yn rhoi amrywiaeth dda, bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio amrywio unrhyw amlygiad trwy ddefnyddio mwy nag un MMF. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cyfyngu ar ei amlygiad i MMF gyda llai o gyllid yn cael ei reoli ac ni fydd yn mynd dros 0.5% o werth clir asedau'r MMF. Yn achos MMF y Llywodraeth, bydd y Cyngor yn sicrhau na fydd amlygiad i bob Cronfa'n fwy na 2% o werth clir asedau'r Gronfa.

9. Defnyddio Offerynnau Ariannol er mwyn Rheoli Peryglon

9.1 Ar hyn o bryd, mae grym cyfreithiol Awdurdodau Lleol i ddefnyddio offerynnau deilliadol yn dal yn aneglur. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio deilliadau.

9.2 Os bydd i'r sefyllfa hon newid, gall yr Awdurdod geisio datblygu fframwaith rheoli peryglon manwl a chadarn sy'n llywodraethu defnyddio deilliadau, ond bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn i newid y strategaeth fel hyn.

10. Gofyniad Cyllideb Fantoledig

10.1 Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â darpariaethau Adran 93 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i bennu cyllideb fantoledig.

11. Datganiad MRP 2012/13

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 (OS 2008/588 (W.59)) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer adennill dyledion. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ganllawiau ar Isafswm Darpariaeth Refeniw ac mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i "ystyried" y fath Ganllawiau dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

11.2 Y pedwar dewis MRP sydd ar gael yw:

- Dewis 1: Dull Rheoleiddiol
- Dewis 2: Dull CFR
- Dewis 3: Dull Bywyd Asedau
- Dewis 4: Dull Dibrisiad

DS Nid yw hyn yn rhwystro defnyddio dulliau darbodus eraill.

11.3 MRP yn 2012/13: Nid yw Dewisiadau 1 a 2 i gael eu defnyddio heblaw ar gyfer gwariant cyfalaf cynaledig heblaw HRA yn cael ei gyllido o fenthyca (h.y. costau cyllido a ystyrir sy'n cael eu cynnal drwy Grant Cynnal Refeniw oddi wrth Lywodraeth Ganolog). Mae dulliau gwneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant hunangyllidol heblaw HRA yn cynnwys Dewisiadau 3 a 4 (y mae modd eu defnyddio hefyd ar gyfer gwariant cyfalaf cynaledig heblaw HRA os yw'r Cyngor yn dewis).

11.4 Mae gofyn cyflwyno'r Datganiad MRP i'r Awdurdod cyn dechrau blwyddyn ariannol 2012/13. Os bydd cynnig ar unrhyw adeg i amrywio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny.

Bydd y Cyngor yn defnyddio Dewis 2 o ran gwariant cyfalaf cynaliedig heblaw HRA i'w gyllido o fenthyca a Dewis 3 o ran gwariant cyfalaf heb ei gynnal heblaw HRA i'w gyllido o fenthyca.

Bydd MRP o ran prydlesi a chynlluniau Menter Cyllid Preifat a ddygwyd i'r Fantolen dan God Ymarfer seiliedig ar Safonau Rhyngwladol Cyflwyno Adroddiadau Ariannol (IFRS) yn cyfateb i'r ad-daliad prifswm blynyddol ar y ddyled ohiriedig gysylltiedig.

Caiff MRP ar asedau Tai ei wneud yn unol â Phenderfyniad Cyffredinol o Gredyd Eitem 8 a Dyled Eitem 8.

12. Arolygu a Hysbysu Alldro'r Drysorfa a Dangosyddion Materion Ariannol

12.1 Bydd Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar weithgaredd / perfformiad rheoli'r drysorfa a Dangosyddion Perfformiad fel a ganlyn:

- Dwywaith, ym mis Hydref a mis Ionawr, gyferbyn â'r strategaeth a gymeradwywyd am y flwyddyn. Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno adroddiad alldro ar weithgaredd ei drysorfa erbyn 30ain Medi fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- Y Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad fydd yn gyfrifol am archwilio gweithgaredd ac arferion rheoli'r drysorfa.

13. Eitemau Eraill

13.1 Hyfforddiant

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn gofyn bod y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad yn sicrhau bod holl aelodau gyda chyfrifoldebau rheoli'r drysorfa, gan gynnwys archwilio swyddogaeth rheoli'r drysorfa, yn cael hyfforddiant priodol perthnasol i'w hanghenion ac yn deall eu swyddogaethau a chyfrifoldebau'n llawn.

Adolygu a rhoi sylw i anghenion hyfforddi: caiff Gweithdai Cyfnodol ar Rheoli'r Drysorfa eu trefnu ar gyfer yr Aelodau ar y cyd ag Arlingclose, cynghorwyr rheoli trysorfa'r Cyngor.

13.2 Ymgynghorwyr Buddsoddi / Cynghorwyr Trysorfa

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar fuddsoddiadau llywodraeth leol yn argymell y dylai'r Strategaeth Fuddsoddi nodi:

- A yw'r awdurdod yn defnyddio contractwyr allanol yn cynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth cysylltiedig â buddsoddiad ac, os felly, sut? Mae'r Cyngor wedi cyflogi Arlingclose Ltd i ddarparu'r gwasanaethau hyn.
- Sut mae ansawdd unrhyw wasanaeth o'r fath yn cael ei reoli? Mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan ymgynghorwyr Trysorfa'r Cyngor dan reolaeth tendro cystadleuol pob 3 blynedd. Daw'r contract presennol i ben ym mis Mawrth 2013 a bydd gwaith caffael cynghorwyr Rheoli'r Drysorfa o fis Ebrill 2013 ymlaen yn cael ei wneud yn ystod 2012/13.

Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion (Adran 2.2)

	Y Portffolio
	£m
Benthyca Allanol:	
− Cyfradd Sefydlog – PWLB	102.6
− Cyfradd Sefydlog – Y Farchnad	23.8
− Cyfradd Newidiol – PWLB	0.0
− Cyfradd Newidiol – Y Farchnad	0.0
Benthyciadau Di-log	1.2
Cyfanswm Benthyca Allanol	**127.6**
Ymrwymiadau Hirdymor Eraill:	
− - PFI	15.2
− - Prydlesi Cyllidol	1.5
Cyfanswm Dyled Allanol Grynswth	**144.3**
Buddsoddiadau:	
− Rheoli mewnol	0.0
− Arian byrdymor (adneuon / arian yn ôl y galw / Cyllid y Farchnad Arian)	43.3
− Buddsoddiadau hirdymor	0.0
− Rheoli allanol	0.0
Cyfanswm Buddsoddiadau	43.3

Dangosyddion Materion Ariannol 2012/13 – 2014/15

1 Cefndir:

Mae gofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 bod awdurdodau lleol yn ystyried Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol CIPFA ("Cod Materion Ariannol CIPFA") wrth bennu ac adolygu eu Dangosyddion Materion Ariannol.

2. Benthyca Clir a'r Gofyniad Codi Cyfalaf:

Mae hwn yn ddangosydd allweddol gofal ariannol. Er mwyn sicrhau y bydd benthyca clir yn unig at ddibenion cyfalafol yn y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r benthyca allanol clir, heblaw am y tro, yn fwy na chyfanswm y gofyniad codi cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyniad codi cyfalaf am y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy nesaf.

Mae Pennaeth Cyllid yn hysbysu na chafodd yr Awdurdod unrhyw anhawster yn ateb y gofyniad hwn yn 2011/12, ac na ragwelir unrhyw anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn ystyried ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol a'r cynigion yn y gyllideb gymeradwy.

3. Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:

3.1 Caiff y dangosydd hwn ei bennu i sicrhau bod gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn arbennig, i ystyried yr effaith ar Dreth y Cyngor a rhenti tai, yn achos HRA.

Gwariant Cyfalaf	2011/12 Cymeradwy	2011/12 Diwygiedig	2012/13 Amcangyfrif	2013/14 Amcangyfrif	2014/15 Amcangyfrif
	£m	£m	£m	£m	£m
Heblaw HRA Cyffredinol	32.5	34.4	30.1	19.0	7.8
Paneli Haul Heblaw HRA	2.4	0.0	0.0	0.0	0.0
HRA Cyffredinol	12.5	14.1	13.1	13.1	13.1
HRA Paneli Haul	13.5	10.5	0.0	0.0	0.0
Cyfanswm	60.9	59.0	43.2	32.1	20.9

3.2 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido fel a ganlyn:

Gwariant Cyfalaf	**2011/12 Cymeradwy**	**2011/12 Diwygiedig**	**2012/13 Amcangyfrif**	**2013/14 Amcangyfrif**	**2014/15 Amcangyfrif**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Derbyniadau Cyfalaf	7.8	5.1	5.9	4.6	1.2
Grantiau'r Llywodraeth	19.2	22.4	**17.6**	10.8	3.2
Cronfa Buddsoddi i Arbed LlC – Paneli Haul	0.1	0.0	**0.0**	0.0	0.0
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7.6	7.6	7.6	7.6	7.6
Cyfraniadau Cyllidol ac Arian Wrth Gefn	5.0	7.4	**6.0**	5.5	5.5
Cyfraniadau Cyllidol HRA – Paneli Haul	1.5	3.0	**0.0**	0.0	0.0
Cyfalaf Wrth Gefn	0.0	0.8	1.2	0.2	0.0
Cyfanswm Cyllido	**41.2**	**46.3**	**38.3**	**28.7**	**17.5**
Benthyca Cynaliedig	4.6	4.6	4.1	3.4	3.4
Benthyca Anghynaliedig	0.8	0.4	0.8	0.0	0.0
Benthyca Anghynaliedig – Paneli Haul	14.3	7.5	0.0	0.0	0.0
Benthyciadau Di-log Llywodraeth Cymru a Salix	0.0	0.2	0.0	0.0	0.0
Cyfanswm Cyllid	**19.7**	**12.7**	**4.9**	**3.4**	**3.4**
Cyfanswm Cyllido a Chyllid	**60.9**	**59.0**	**43.2**	**32.1**	**20.9**

4. Cymhareb o Gostau Cyllido â'r Ffrwd Gyllid Glir:

4.1 Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau cyllidol gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran y gyllideb gyllidol sydd ei hangen i dalu costau benthyca. Mae diffiniad o gostau cyllido yn y Cod Materion Ariannol.

4.2 Seiliwyd y gymhareb ar gostau'n glir o incwm buddsoddi.

Cymhareb o Gostau Cyllido â'r Ffrwd Gyllid Glir	2011/12 Cymeradwy %	2011/12 Diwygiedig %	2012/13 Amcangyfrif %	2013/14 Amcangyfrif %	2014/15 Amcangyfrif %
Heblaw HRA	5.18	5.25	5.15	5.09	5.01
HRA	3.68	3.40	3.78	3.37	3.08

5. Gofyniad Codi Cyfalaf:

5.1 Mae'r Gofyniad Codi Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalafol. Caiff CFR ei gyfrifo o'r symiau ar y Fantolen sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf a'i gyllido.

Gofyniad Codi Cyfalaf	2011/12 Cymeradwy %	2011/12 Diwygiedig %	2012/13 Amcangyfrif %	2013/14 Amcangyfrif %	2014/15 Amcangyfrif %
Heblaw HRA	141.5	141.2	139.5	137.0	134.9
HRA	15.0	21.5	20.1	18.8	17.5
Cyfanswm CFR	**156.5**	**162.7**	**159.6**	**155.8**	**152.4**

6. Gwir Ddyled Allanol:

6.1 Daw'r dangosydd hwn yn uniongyrchol o fantolen y Cyngor. Dyma'r balans wrth gau ar gyfer y gwir fenthyca crynswth ynghyd ag ymrwymiadau hirdymor eraill. Caiff y dangosydd hwn ei fesur mewn ffordd sy'n galluogi cymharu â'r Terfyn Gweithredol a'r Terfyn Awdurdodedig.

Gwir Ddyled Allanol ar 31/03/2011	£m
Benthyca	131.6
Ymrwymiadau Hirdymor Eraill	17.7
Cyfanswm	**149.3**

7. Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf:

7.1 Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn sy'n dangos effaith penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Dreth y Cyngor a Rhenti Tai. Caiff yr effaith gynyddrannol ei chyfrifo trwy gymharu cyfanswm gofyniad cyllideb gyllidol y rhaglen gyfalaf gymeradwy gyfredol gyda chyfrifiad cyfatebol o'r gofyniad cyllideb gyllidol yn deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf	**2011/12 Cymeradwy £**	**2011/12 Diwygiedig £**	**2012/13 £**	**2013/14 £**	**2014/15 £**
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor Band D	59.66	38.86	35.02	31.21	23.06
Cynnydd yng Nghyfartaledd Rhenti Tai Wythnosol	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00

7.2 Mae'r cynnydd yn nhreth y cyngor Band D yn adlewyrchu'r codiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer Taliadau Codi Cyfalaf cysylltiedig â benthyca'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

7.3 Nid yw rhaglen gyfalaf y Cyfrif Cyllid Tai'n effeithio ar renti Tai'r Cyngor sy'n cael eu pennu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

8. Terfyn Awdurdodedig a Therfyn Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol:

8.1 Mae gan y Cyngor strategaeth gyfun ar gyfer rheoli'r drysorfa ac mae'n rheoli sefyllfa ei drysorfa'n unol â'i strategaeth ac arferion cymeradwy. Felly, bydd benthyca at ei gilydd yn deillio o ganlyniad i holl weithrediadau ariannol y Cyngor ac nid yn unig y rhai sy'n deillio o wariant cyfalaf yn cael ei adlewyrchu yn y CFR.

8.2 Mae'r **Terfyn Awdurdodedig** yn pennu benthyca allanol mwyaf y Cyngor ar sail grynswth (h.y. heb dynnu buddsoddiadau). Caiff ei fesur bob dydd gyferbyn â holl eitemau benthyca allanol ar y Fantolen, h.y. benthyca byrdymor a hirdymor, arian dyledus yn y banc ac ymrwymiadau hirdymor. Mae'r Dangosydd Materion Ariannol hwn yn nodi benthyca o ymrwymiadau hirdymor eraill fel prydlesi cyllid ar wahân. Mae'n cyd-fynd ac ymrwymiadau presennol y Cyngor, ei gynigion ar gyfer gwariant cyfalaf a chyllido a datganiad ac arferion polisi cymeradwy rheoli ei drysorfa.

8.3 Pennwyd y Terfyn Awdurdodedig ar amcangyfrif o'r scenario mwyaf tebygol, darbodus ond heb fod yr achos gwaethaf gyda digon o le dros ben hyn i ganiatâu ar gyfer symudiadau arian parod anghyffredin.

8.4 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y cyfeirir ati yn y ddeddfwriaeth fel y Terfyn Fforddiadwy).

Terfyn Awdurdodedig Dyled Allanol	**2011/12 Cymeradwy £m**	**2012/13 Amcangyfrif £m**	**2013/14 Amcangyfrif £m**	**2014/15 Amcangyfrif £m**
Benthyca	199.4	189.4	188.5	187.8
Dyledion Hirdymor Eraill	16.2	15.6	15.2	14.9
Cyfanswm	**215.6**	**205.0**	**203.7**	**202.7**

8.5 Mae'r Terfyn Gweithredol yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR ac amcangyfrifon o ofynion eraill llif arian. Seiliwyd y dangosydd hwn ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig gan adlewyrchu'r senario mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf ond heb yr hawl ychwanegol sy'n rhan o'r Terfyn Awdurdodedig.

8.6 Mae gan y Pennaeth Cyllid awdurdod dirprwyedig, o fewn y terfyn llawn yn unrhyw flwyddyn unigol, i beri symudiad rhwng y terfynau a gytunwyd ar wahân ar fenthyca a dyledion hirdymor eraill. Bydd penderfyniadau ar sail canlyniad gwerthuso dewisiadau ariannol ac ystyriaethau gwerth gorau. Bydd unrhyw symudiad rhwng y terfynau ar wahân hyn yn cael ei hysbysu i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.

Terfyn Gweithredol Dyled Allanol	**2011/12 Cymeradwy £m**	**2012/13 Amcangyfrif £m**	**2013/14 Amcangyfrif £m**	**2014/15 Amcangyfrif £m**
Benthyca	189.4	179.4	178.5	177.8
Dyledion Hirdymor Eraill	16.2	15.6	15.2	14.9
Cyfanswm	**205.6**	**195.0**	**193.7**	**192.7**

9. Mabwysiadu Cod CIPFA ar gyfer Rheoli'r Drysorfa:

9.1 Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion arferion gorau.

Mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Drysorfa
Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol fabwysiadu Cod CIPFA ar Reoli'r Drysorfa yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2002 (DFIS/20/02)

Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau i God CIPFA ar Reoli'r Drysorfa (Tachwedd 2011) ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion ei drysorfa.

10. Dyled Grynswth a Chlir:

10.1 Diben dangosydd hwn y drysorfa yw tynnu sylw at sefyllfa pan fo'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn bo angen.

Terfyn Uchaf ar Ddyled Glir o'i chymharu â Dyled Grynswth	**2011/12 Amcangyfrif £m**	**2012/13 Amcangyfrif £m**	**2013/14 Amcangyfrif £m**	**2014/15 Amcangyfrif £m**
Benthyciadau heb eu Had-dalu (gwerth enwol)	127.6	127.3	126.7	126.1
Dyledion Eraill Hirdymor (gwerth enwol)	16.6	15.6	15.2	14.9
Dyled Grynswth	144.2	142.9	141.9	141.0
Llai: Buddsoddiadau	30.2	26.8	25.3	27.1
Dyled Glir	**114.0**	**116.1**	**116.6**	**113.9**

DS: Ar hyn o bryd mae CIPFA yn ymgynghori ar ddangosydd diwygiedig, i gymharu Dyled Grynswth yn hytrach na Dyled Glir â'r Gofyniad Codi Cyfalaf fel arwydd mwy eglur o gymryd benthyg cyn bod angen. Caiff y sefyllfa gyda Dyled Grynswth a Dyled Glir eu dangos yn y tabl uchod.

11. Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Log Sefydlog a Chyfradd Log Newidiol:

11.1 Mae'r sangosyddion hyn yn caniatáu i'r Cyngor reoli faint mae'n agored i newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyngor hwn yn cyfrifo'r terfynau hyn ar y llog clir a dalwyd (h.y. llog a dalwyd ar ddyledion cyfradd sefydlog yn glir o log a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau cyfradd sefydlog).

11.2 Pennwyd terfyn uchaf amlygiad i gyfradd newidiol er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i godiad cyfraddau llog a allai effeithio er gwaeth ar y gyllideb gyllidol. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyled cyfradd newidiol i wrthbwyso amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

Amlygiadau Cyfraddau Llog	**Canran Bresennol neu Ganran Feincnod ar 31/03/11 %**	**2011/12 Cymeradwy %**	**2011/12 Diwygiedig %**	**2012/13 Amcangyfrif %**	**2013/14 Amcangyfrif %**	**2014/15 Amcangyfrif %**
Sefydlog						
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Sefydlog ar Ddyledion	100	100	100	100	100	100
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Sefydlog ar Fuddsoddiadau	(100)	(100)	(100)	(100)	(100)	(100)
Amlygiad Sefydlog Clir	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Amrywiol						
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Amrywiol ar Ddyledion	30	30	30	30	(30)	30
Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Amrywiol ar Fuddsoddiadau	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)
Amlygiad Amrywiol Clir	**(20)**	**(20)**	**(20)**	**(20)**	**(20)**	**(20)**

11.3 The limits above provide the necessary flexibility within which decisions will be made for drawing down new loans on a fixed or variable rate basis; the decisions will ultimately be determined by expectations of anticipated interest rate movements as set out in the Council's treasury management strategy.

12. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca Cyfradd Sefydlog:

12.1 Mae'r dangosydd hwn yn tynnu sylw at fodolaeth unrhyw grynoadau mawr o ddyledion cyfradd benodol sydd angen eu disodli ar adegau o ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog ac fe'i lluniwyd i warchod rhag bod yn rhy agored i newid cyfraddau llog yn unrhyw un cyfnod, yn arbennig yn ystod y deng mlynedd nesaf.

12.2 Caiff ei gyfrif fel maint y benthyca estynedig sydd ar gyfradd benodol yn aeddfedu ymhob cyfnod fel canran o gyfanswm y benthyca estynedig sydd ar gyfradd benodol. Mae aeddfedrwydd benthyca'n cael ei benderfynu trwy gyfeirio at y dyddiad cynharaf y gall y rhoddwr benthyg fynnu taliad.

Strwythur aeddfedrwydd benthyca cyfradd sefydlog	**Canran Bresennol (neu Ganran Feincnod) ar 31/03/11 %**	**Terfyn Isaf ar gyfer 2012/13 %**	**Terfyn Uchaf ar gyfer 2012/13 %**
dan 12 mis	11.5	0	20
12 mis ac o fewn 24 mis	4.0	0	20
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	5.8	0	20
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	5.2	0	80
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	12.0	0	80
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	6.0	0	80
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	12.9	0	80
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	42.6	0	80
50 mlynedd a mwy	0.0	0	90
Cyfanswm	100.0		

13. Peryglon Credyd:

13.1 Bydd y Cyngor yn ystyried sicrwydd, hylifedd ac elw, yn y drefn honno, wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

13.2 Mae statws credyd yn aros yn elfen bwysig o asesu peryglon credyd, ond nid yw'n unig nodwedd yn asesiad y Cyngor o beryglon credyd gwrthbarti.

13.3 Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried asesiadau gwahanol o gryfder credyd, a gwybodaeth am ddatblygiadau corfforaethol gwrthbartïon a theimlad y farchnad tuag atynt. Caiff yr eitemau allweddol canlynol eu defnyddio i asesu peryglon credyd:

- Cyfraddiadau credyd cyhoeddedig y sefydliad ariannol (A- neu gyfartal fan leiaf) a'i sofraniaeth (AA+ neu gyfartal o leiaf allan o'r DU);
- Peirianwaith cefnogi sofraniaeth;
- Ffeirio diffygion credyd (pan fyddant yn cael eu dyfynnu);
- Prisiau cyfranddaliadau (pan fyddant ar gael);
- Hanfodion economaidd, megis dyled glir gwlad fel canran o'i CMC);
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion, erthyglau, teimlad y marchnadoedd a momentwm;
- Troshaen oddrychol.

13.4 Yr unig ddangosyddion sy'n dal gyda gwerthoedd penodedig yw cyfraddiadau credyd. Caiff dangosyddion eraill statws credyd eu hystyried o safbwynt cymharol yn hytrach nag absoliwt.

14. Terfyn Uchaf cyfanswm prifsymiau sy'n cael eu buddsoddid dros 364 diwrnod:

14.1 Diben y terfyn hwn yw atal amlygiad i bosibilrwydd colled all ddigwydd os yw'r Cyngor yn gorfod ceisio cael ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd.

Terfyn Uchaf cyfanswm prifsymiau a fuddsoddwyr 364 diwnod	**2011/12 Cymeradwy £m**	**2011/12 Diwygiedig £m**	**2012/13 Amcangyfrif £m**	**2013/14 Amcangyfrif £m**	**2014/15 Amcangyfrif £m**
	15	15	10	10	10

Rhagolwg Economaidd a Chyfraddau Llog (Adrannau 3.1 a 4.1)

	Mar-12	Jun-12	Sep-12	Dec-12	Mar-13	Jun-13	Sep-13	Dec-13	Mar-14	Jun-14	Sep-14	Dec-14	Mar-15
Official Bank Rate													
Upside risk					0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Downside risk													
3-month LIBID													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Central case	1.00	1.00	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
1-yr LIBID													
Upside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	1.75	1.75	1.75	1.75	1.80	1.85	1.95	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00	2.00
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
5-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	1.20	1.30	1.40	1.50	1.60	1.70	1.80	2.00	2.00	2.00	2.10	2.15	2.25
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
10-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	2.10	2.15	2.30	2.40	2.50	2.60	2.70	2.75	2.80	2.85	2.90	3.00	3.00
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
20-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	3.00	3.05	3.10	3.20	3.25	3.30	3.35	3.40	3.45	3.50	3.60	3.75	3.75
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25
50-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	3.20	3.40	3.60	3.70	3.80	3.90	4.00	4.00	4.00	4.10	4.20	4.25	4.25
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25	-0.25

- Mae'r US Federal Reserve wedi arwyddo y bydd yn cadw cyfraddau llog "yn isel eithriadol" hyd 2014. Credwn y gallai fod yn 2016 cyn cyfraddau llog swyddogol y DU gynyddu.
- Mae disgwyl i statws lloches y DU, effaith uniongyrchol QE a'r posibilrwydd lleiaf posibl o gynnydd mewn cyfraddau polisi, gadw elw stociau'r llywodraeth yn eu cyflwr isel yn y byrdymor.
- Mae canlyniad anhrefnus i argyfwng sofran Ardal yr Ewro'n aros yn berygl economaidd, credyd a gwleidyddol allweddol.

<u>Tybiaethau Aylfaenol:</u>

- Mae disgwyl i straen ar y farchnad ariannol aros yn nodwedd o 2012. Daliodd cyfraddau ym marchnadoedd Interbank (lle bydd banciau'n cyllido mwyafrif eu gweithrediadau arferol) i ddringo. Roedd y ddynameg hon yn nodwedd o argyfwng bancio 2008 a, thra bo'r awdurdodau wedi boddi'r marchnadoedd mewn hylifedd, mae'n dal yn ddangosydd cryf o beryglon y farchnad.
- Mae chwyddiant wedi cymedroli'n ôl i 4.8% ym mis Tachwedd. Mae disgwyl i CPI gwympo'n ôl yn raddol tuag at y targed o 2% wrth i gynnydd TAW mis Ionawr 2011, yr ymchwydd ym mhrisiau olew a'r cynnydd mawr ym mhris ynni adael y gymhariaeth ddeuddeg mis.

- Mae data ac arolygon diweddar yn awgrymu fod economi'r DU, ers yr haf, wedi colli'r momentwm oedd ond yn frau. Mae arolygon busnes a defnyddwyr yn arwyddo parhad gwendid yn y misoedd a ddaw. Gallai toriadau gwariant cyhoeddus, mesurau darbodus, cyfyngiadau credyd, diffyg hyder busnes a defnyddwyr beri i'r economi nogio (ac eithrio Ch3, pan fydd y Gemau Olympaidd 2012 yn rhoi hwb dros dro) ac, yn ôl pob tebyg, yn rhoi pwysau ar Fanc Lloegr i ddarparu QE ychwanegol.
- Ni fydd y cryn ansicrwydd ac ehangiad peryglon oherwydd yr argyfwng yn Ardal yr Ewro a diffyg symudiad yn UDA mewn blwyddyn etholiad yn cynorthwyo twf byd-eang petrus. Yn eu tro gallai'r effeithiau dilynol bwyso ar dwf yn China a gwledydd marchnad eginol.
- Mae disgwyl i gyflenwad bondiau'r Llywodraeth fod yn uwch yn 2012-13 nag a ragwelwyd o'r blaen gan y Trysorlys. Fodd bynnag, dros y byrdymor, byddant yn cadw eu statws lloches wrth i beryglon haint Ardal yr Ewro gynyddu.
- Mae adbrynu bondiau Ewropeaidd sylweddol ac ailgyllido (Yr Eidal yn arbennig) yn hanner cyntaf 2012 yn aros yn heriau sylweddol. Gallai gwyntoedd gwrthwyneb i gydgyfeiriant cyllidol a newid cytundebau ddwysáu pwysau diraddiol ar y cenhedloedd craidd AAA yn ogystal â gwledydd ymylol. Gall effeithiolrwydd Cronfa Sefydlogrwydd Ariannol Ewrop (EFSF) fod yn gyfyngedig, gan gynyddu posibilrwydd methiant sofran neu chwalu Ardal yr Ewro.

Rhestr Sofran a Gwrthbarti Gymeradwy (Adran 7)

- ***Terfynau Grŵp*** *– Ar gyfer sefydliadau mewn grŵp bancio, mae'r awdurdod gweithredu terfyn o 1.5 gwaith terfyn unigol banc unigol o fewn y grŵp hwnnw.*

Offeryn	**Gwlad / Preswylfan**	**Gwrthbarti**	**Terfyn Uchaf y Gwrthbarti %/ £m**	**Terfyn Uchaf y Grŵp (os yw'n berthnasol) %/ £m**
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Santander UK Ccc (Grŵp Banco Santander)	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Bank of Scotland (Grŵp Lloyds Banking)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Lloyds TSB (Grŵp Lloyds Banking)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Barclays Bank Ccc	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Clydesdale Bank (Grŵp National Australia Bank)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	HSBC Bank Ccc	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Nationwide Building Society	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	NatWest (RBS Group)	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Royal Bank of Scotland (Grŵp RBS)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y DU	Standard Chartered Bank	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Awstralia	Australia and NZ Banking Group	£10m	amherthnasol

Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Awstralia	Commonwealth Bank of Australia	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Awstralia	National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Awstralia	Westpac Banking Corp	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Canada	Bank of Montreal	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Canada	Bank of Nova Scotia	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Canada	Canadian Imperial Bank of Commerce	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Canada	Royal Bank of Canada	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Canada	Toronto-Dominion Bank	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y Ffindir	Nordea Bank Finland	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Ffrainc	BNP Paribas	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group)	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Credit Agricole SA (Credit Agricole Group)	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Société Générale	£10m	amherthnasol

Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Yr Almaen	Deutsche Bank AG	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Yr Iseldiroedd	ING Bank NV	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Yr Iseldiroedd	Rabobank	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Yr Iseldiroedd	Bank Nederlandse Gemeenten	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Sweden	Svenska Handelsbanken	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	Y Swisdir	Credit Suisse	£10m	amherthnasol
Adneuon Tymor / CD / Cyfrifon Galw	UDA	JP Morgan	£10m	amherthnasol

***Sylwch y gallai'r rhestr hon newid os, er enghraifft, caiff gwrthbarti / gwlad ei huwchraddio, ac yn cyrraedd ein meini prawf statws credyd eraill. Fel arall, os caiff gwrthbarti ei israddio, gall fyrhau'r rhestr hon.*